Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Mehefin 25ain, 2008 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Y Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Julia Jones, Cyng Christopher Parish, Cyng Dawn Wallace, Cyng Hugh Towns, Cyng Ros Bellamy
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Ymddiheuriadau: Cyng Fran Murphy, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Richard Wallace, Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Cyn y cyfarfod anerchwyd y Cyngor gan Tracey Kindred a Nia Prytherch, cynrychiolwyr Siambr Fasnach Llandeilo, ar eu cynlluniau ar gyfer Gŵyl o'r Synhwyrau 2008.

Materion yr Heddlu: Nododd Sarsiant yr Heddlu Ian Price fod 7 trosedd wedi'u cofnodi yn ystod y mis, a 5 ohonynt wedi'u datgelu. Nid oedd unrhyw batrymau trosedd na phatrymau o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Holodd y Cynghorwyr Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Rob Smith, a oedd hefyd yn bresennol, am ei swydd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y byddai'r Clerc yn ysgrifennu at y Prif Gwnstabl yn gwneud cais i'r Heddlu roi mwy o gyfrifoldeb i'r Swyddogion Cymorth, i gynnwys troseddau traffig. Dymunai'r Cyngor gofnodi ei fod yn hapus gyda'r plismona yn y Dref.

Cof 79 / Mehefin / 08 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Anfonodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones ei ymddiheuriadau, ni allai fynychu oherwydd ymrwymiadau blaenorol.

Cof 80 / Mehefin / 08 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher Mai 28ain 2008 a'u cadarnhau fel gwir gofnod. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy, eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher Mehefin 11eg 2008 a'u cadarnhau fel gwir gofnod ac argymell eu derbyn. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins, eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher Mehefin 11eg 2008 a'u cadarnhau fel gwir gofnod ac argymell eu derbyn. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy, eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 81 / Mehefin / 08 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

Ynghylch Cof 69 / Mehefin / 08, Doedd y Cyng Chris Parish ddim wedi gallu mynychu cyfarfod y Rhwydwaith Cymunedol oherwydd damwain.
Ynghylch Cof 76 / Mehefin / 08 (4) Derbyniwyd dyfynbrisiau ar gyfer cwblhau Prisiad ar Neuadd y Sir, agorodd y Maer nhw yn y cyfarfod.

Clee Tompkinson	£ 475 TAW yn ychwanegol.
Tompkinson Chartered Surveyors	£ 545 TAW yn ychwanegol.

Cynigiodd y Cyng Hugh Towns dderbyn y pris isaf o £475 TAW yn ychwanegol. Eiliodd y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 82 / Mehefin / 08 Materion Ariannol

1. Anfonebau i'w talu

BT (ffôn swyddfa)	£ 68.94
ABBA Loos Ltd (dathliadau Parc Penlan)	£ 337.23
Laurence Scaffolding Services	£ 210.50
Lewis Printers (taflenni gwybodaeth y Cyngor)	£ 206.00
Shaw & Sons (cofrestr y cyngor)	£ 63.20
Charles Sams Electrical (adroddiad archwiliad Neuadd y Sir)	£ 528.75
Charles Sams Electrical (dathliadau Parc Penlan)	£ 737.90
Treuliau'r Maer (derbyniad i westeion Parc Penlan)	£ 84.39

Cynigiodd y Cyng Hugh Towns ac eiliodd y Cyng Dawn Wallace y dylid eu talu.

2. Materion Ariannol Eraill

a) Cytunwyd y byddai pob newid i orchmynion banc yn cael eu pasio gan y Swyddog Cyllid cyn i'r Cynghorwyr fynd i'r banc.
Cadarnhawyd y llofnodwyr canlynol:
Prif Gyfrif – Cyng Ros Bellamy, Cyng Hugh Towns, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Colin Jenkins.
Cyfrif y Maer – Cyng Richard Wallace, Cyng Edward Thomas, Cyng Charlotte Leadbeater.

Cof 83 / Mehefin / 08 Gohebiaeth sydd angen ymateb

1. Western Mail - cynnig creu Arweinlyfr i'r Dref. Ni fyddai unrhyw gost i'r Cyngor, yr hysbysebwyr fyddai'n cario'r gost. Byddai'r Maer yn darparu rhagair, a'r Cyngor yn darparu erthygl am y Dref. Byddai'r Cyngor yn derbyn 8000 o gopïau i'w dosbarthu. Byddai copïau ychwanegol yn costio £120 am 1,000.
   Cynigiodd y Cyng Hugh Towns i'r Cyngor dderbyn y cynnig. Eiliwyd gan y Cyng Julia Jones. Roedd pawb o blaid.
2. CSC – Y Gwasanaeth Stryd - ymateb i gŵyn y Cyngor ynghylch cyflwr gwael nifer o'r arwyddion ffordd yn y Dref. Bydd CSC yn archwilio ac ailosod arwyddion diffygiol. Gofynnwyd i Gynghorwyr hysbysu'r Clerc o unrhyw arwyddion sydd angen eu hailosod.
3. Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol Mawrth 2008. Bydd y Cyng Charlotte Leadbeater yn darllen y ddogfen ac yn adrodd nôl i'r Cyngor.

4. CSC – ymgynghori ar orchmynion Rheoli Cŵn arfaethedig, Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005. Bydd y Maer yn ymateb drwy gwblhau holiadur ar y we.

Cof 84 / Mehefin / 08 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Gŵyl Bro Dinefwr 2008. Nodwyd.
2. Diwrnod Agored Fferm Gymunedol Abertawe 4.7.08. Nodwyd.
3. Cylchlythyr HOWLTA.
4. Gwasanaethau Adolygu Annibynnol ar gyfer y Gronfa Gymdeithasol
5. Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman 2007-8
6. LlCC– Adroddiad Partneriaeth Llywodraeth Leol 2006-7. Nodwyd.

Cof 85 / Mehefin / 08 Trafnidiaeth a Phriffyrdd

Mewn ymateb i lythyr y Cyngor ynghylch cyflwr gwael cylchfan y ffordd osgoi mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd, sy'n cynnal a chadw'r gylchfan, wedi chwistrellu'r safle ac wedi archebu arwyddion ffordd newydd.

Cof 86 / Mehefin / 08 Trefniadau ar gyfer y Dathliadau Canmlwyddiant ym Mharc Penlan

Diolchodd y Maer i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y digwyddiad. Da o beth fyddai cofnodi'r cyfanswm o arian a gasglwyd ar y dydd gan y stondin elusen. Fel gwerthfawrogiad am eu cyfranogiad a chymorth fe gynigiwyd y rhoddion yma gan y Cyng Hugh Towns, eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Ysgol Gymraeg Teilo Sant £50
Ysgol Gynradd Llandeilo £50
The Teilo Singers £50
Ambiwlans Sant Ioan £50
Ysgol Tre-gib (am logi'r byrddau) £50
Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Stuart Quick, CSC am arwydd brown traddodiadol i gyfeirio ymwelwyr at Barc Penlan.
Cynghorwyr Ros Bellamy, Colin Jenkins a'r Maer i gwrdd er mwyn trafod ffordd briodol o goffáu canmlwyddiant Parc Penlan.
Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Lewis Printers i gael dyfynbris am ailargraffu 250 o gopïau o raglen y Canmlwyddiant. Gwerthir y rhain i bobl sydd â diddordeb.
Bydd yr is-grŵp, a sefydlwyd er mwyn trefnu dathliadau'r canmlwyddiant, yn cwrdd ym mis Medi i drafod os dylid trefnu digwyddiad blynyddol yn y parc.
Gallai mudiadau eraill drefnu eu digwyddiadau eu hunain mewn cydweithrediad â CSC.

Cof 87 / Mehefin / 08 Adroddiad y Swyddog Technegol

Cyflwynodd y Swyddog Technegol adroddiad yn ei absenoldeb. Adroddodd Mr Davies fod yr iorwg sy'n tyfu ar flaen Neuadd y Sir wedi cyrraedd y bondo ac yn treiddio i'r mortar. Cytunwyd i'r Clerc ysgrifennu llythyr at Mr John Owen, perchennog yr adeilad mae'r iorwg yn tyfu ohono, er mwyn gofyn caniatâd i waredu'r iorwg. Bydd y Maer hefyd yn siarad â Mr Owen am y broblem.
Roedd y Swyddog Technegol wedi anfon gwahoddiadau i gontractwyr am ddyfynbrisiau i:

i) adnewyddu ardal y cwrt o flaen Neuadd y Sir
ii) gwelliannau i ardaloedd cyntedd mewnol Neuadd y Sir

Agorir y rhain yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid.

Cof 88 / Mehefin / 08 Adroddiad y Maer

Adroddodd y Maer ar y digwyddiadau a'r dyletswyddau a gyflawnodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis.
Darllenodd y Cyng Edward Thomas ymateb Mr Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Hamdden, i'r cais am fanylion o wariant CSC ar hamdden yn Llandeilo. Roedd Aelodau yn siomedig nad oes unrhyw gynnydd wedi digwydd o ran CSC yn ailosod pwll nofio'r Dref.
Y Maer wedi derbyn dyfynbris gan Fattorini Ltd am uwchraddio Cadwyn y Maer. Roedd angen cynyddu'r nifer o ddolenni er mwyn gwneud lle i enwau'r Maerod diweddar yn ogystal â leinio'r gadwyn gyda felfed er mwyn gwneud y gadwyn yn fwy cyfforddus i'w gwisgo. Y dyfynbris oedd £2082 TAW yn ychwanegol. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns i gwblhau'r gwaith. Eiliodd y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid. Yr arian ar gael o'r arbed a wnaed pan na chafodd cronfa'r Etholiad ei defnyddio.

Cof 89 / Mehefin / 08 Adroddiadau Eraill

1. Is-grŵp Treialon Cŵn Defaid y Byd
   Adroddodd y Clerc ar gyfarfod y grŵp a gynhaliwyd gyda Mr Meirion Owen a Mr Sulwyn Thomas. Catrawd Cadbibau a Drymiau Cymru sy'n mynd i arwain yr orymdaith. Roedd y Cyng Colin Jenkins wedi cysylltu gyda'r Ysgolion Cynradd a fyddai'n creu Baneri'r gwledydd sy'n cymryd rhan. Y Clerc i gysylltu gyda Dawnswyr Penrhyd a chôr lleol i ddarparu adloniant. Y Cyng Charlotte Leadbeater i drefnu'r Neuadd Ddinesig. Y Clerc i gael dyfynbrisiau am ddarparu bwffe. Gwahoddwyd y Cyngor i ddod a stondin i'r Brif Babell.
2. Is-grŵp Iechyd
   Gohiriwyd yr adroddiad tan y cyfarfod nesaf.
3. Adroddiad ar Gynllun Lleihau Risg yr Awdurdod Tân ac Achub
   Adroddodd y Cyng Colin Jenkins fod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi cwblhau 17,000 o archwiliadau diogelwch yn ystod 2007-8, ac wedi gosod 21,000 o larymau mwg. Maent wedi trefnu mentrau cymunedol mewn Ysgolion a gyda grwpiau gwirfoddol. Maent wedi datblygu cynlluniau ymateb ar y cyd mewn cydweithrediad â'r gwasanaeth Ambiwlans. Diolchwyd i'r Cyng Jenkins am ei adroddiad.
4. Adroddiad ar Gynllun Datblygu Lleol arfaethedig CSC
   Rhoddodd y Cyng Roy Davies adroddiad cynhwysfawr ar gynlluniau CSC. Cred ef fod dau opsiwn ar gyfer datblygiad yn y dyfodol:
   1) Datblygu yn y tair ardal fwyaf sef Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman / Crosshands
   2) Datblygu yn y trefi a phentrefi mwyaf

   Barn y Cyng Davies yw y byddai opsiwn 2 yn gweld lefel uwch o ddatblygiad yn y Dref o gymharu ag opsiwn 1.
   Roedd y Cyng Davies yn pryderu dros ddiffyg deialog a gwybodaeth rhwng CSC a'r Cyngor ynghylch datblygiadau yn y Dref ar gyfer y dyfodol. Gan nad yw'r Cyngor wedi derbyn ymateb gan Mr Mark James i lythyr a ddanfonwyd yn Ionawr 2008, cynigiwyd y dylid anfon llythyr arall yn gofyn am well cydweithrediad. Eiliodd y Cyng Colin Jenkins y cynnig. Roedd pawb o blaid.
5. Adroddiad ar Bolisi'r Iaith Gymraeg.

Cyflwynodd y Cyng Roy Davies adroddiad yn diweddaru'r polisi hwn. Gofynnodd i sylwadau gael eu hystyried erbyn cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Medi.

Cof 90 / Mehefin / 08 Gŵyl o'r Synhwyrau 2008

Cafwyd trafodaeth ar y cynlluniau a roddwyd gan gynrychiolwyr o'r Siambr Fasnach ar ddechrau'r cyfarfod.
Cynigiodd y Cyng Hugh Towns i'r Cyngor roi £1,000 tuag at Gŵyl o'r Synhwyrau 2008 i gynorthwyo gyda chynhyrchu taflenni a rhaglenni i'w hyrwyddo. Arian a glustnodwyd ar gyfer etholiad y Cyngor Tref yn Mai 2008 fydd yn talu am hyn, gan na gafodd ei gynnal wedi i'r Cynghorwyr ddychwelyd yn ddiwrthwynebiad. Eiliodd y Cyng Colin Jenkins y cynnig. Roedd pawb o blaid.
Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins y dylid troi'r goleuadau Nadolig blynyddol ymlaen ar ddydd Gwener Tachwedd 21ain i gyd-fynd gyda'r Ŵyl. Eiliodd y Cyng Chris parish. Roedd pawb o blaid. Penderfynwyd hefyd i wahodd dau aelod o'r Siambr Fasnach i ymuno â'r is-grŵp goleuadau Nadolig.

Cof 91 / Mehefin / 08 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Gofynnodd y Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater os byddai'r Cyngor yn ei chefnogi i drefnu taith gerdded noddedig i helpu ymchwil Clefyd y Siwgr. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30pm